



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
Legislation Committee No. 2**

**Dydd Iau, 1 Hydref 2009
Thursday, 1 October 2009**

Cynnwys
Contents

- 4 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions
- 5 Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)—Cyfnod 2: Ystyried
Gwelliannau
The Proposed Children and Families (Wales) Measure—Stage 2: Consideration of
Amendments
- 7 Y Nodau Eang—Dull sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn (Gwelliannau 40 a 41)
Broad Aims—Child-centred Approach (Amendments 40 and 41)
- 9 Tlodi Tanwydd (Gwelliant 42)
Fuel Poverty (Amendment 42)
- 10 Tlodi, Amddifadedd Sylweddol, Incwm Canolrifol (Gwelliannau 43, 44 a 56)
Poverty, Material Deprivation, Median Income (Amendments 43, 44 and 56)
- 13 Strategaethau—Targedau a Cherrig Milltir (Gwelliant 57)
Strategies—Targets and Milestones (Amendment 57)
- 16 Strategaethau—Dyletswyddau Gweinidogion Cymru i Ymgynghori (Gwelliannau 3, 58
a 4)
Strategies—Duties of the Welsh Ministers to Consult (Amendments 3, 58 and 4)
- 20 Strategaethau—Adroddiadau Blynyddol Dros Dro (Gwelliant 59)
Strategies—Interim Annual Reporting (Amendment 59)
- 23 Canllawiau a Chyfarwyddiadau—Chwarae a Chymryd Rhan (Gwelliannau 16, 17, 7 a
9)
Guidance and Directions—Play and Participation (Amendments 16, 17, 7 and 9)
- 25 Yr Awdurdodau Cymreig (Gwelliannau 5, 60 a 6)
Welsh Authorities (Amendments 5, 60 and 6)
- 30 Rheoliadau sy'n Llywodraethu Gweithgareddau (Gwelliant 18)
Regulations Governing Activities (Amendment 18)
- 31 Atal Cofrestriad—Hyfforddiant (Gwelliant 45)
Suspension of Registration—Training (Amendment 45)
- 33 Amddiffyn mewn Argyfwng a Diogelwch Gweithdrefnol (Gwelliannau 19, 20 a 21)
Emergency Protection and Procedural Safeguards (Amendments 19, 20 and 21)
- 35 Canlyniadau Anghymwyso—Technegol (Gwelliant 22)
Consequences of Disqualification—Technical (Amendment 22)
- 36 Rhan 2—Arolygu a Phwerau Mynediad (Gwelliannau 23, 24, 25, 39, 26 a 27)
Part 2—Inspection and Powers of Entry (Amendments 23, 24, 25, 39, 26 and 27)
- 39 Hysbysiadau o Gosb (Gwelliannau 46 a 28)
Penalty Notices (Amendments 46 and 28)

- 41 Ymgynghoriad—Timau/Byrddau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Gwelliannau 47, 48, 49, 50, 51, 61, 62 a 64)
Consultation—Integrated Family Support Teams/Boards (Amendments 47, 48, 49, 50, 51, 61, 62 and 64)
- 47 Rheoliadau—Timau/Byrddau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Gwelliant 63)
Regulations—Integrated Family Support Teams/Boards (Amendment 63)
- 50 Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwelliannau 29, 30, 31, 32 a 33)
Social Services Functions (Amendments 29, 30, 31, 32 and 33)
- 54 Swyddogion Safonau Gwaith Cymdeithasol Teuluol (Gwelliannau 65 a 66)
Family Social Work Standards Officers (Amendments 65 and 66)
- 57 Cyfleoedd Chwarae (Gwelliannau 67, 52, 68, 69, 10, 55 ac 1)
Play Opportunities (Amendments 67, 52, 68, 69, 10, 55 and 1)
- 64 Cymryd Rhan (Gwelliannau 53, 8, 54 a 11)
Participation (Amendments 53, 8, 54 and 11)
- 67 Dehongli'n Gyffredinol (Gwelliannau 70 a 71)
General Interpretation (Amendment 70 and 71)
- 68 Gorchmynion a Rheoliadau (Gwelliannau 36, 37 a 38)
Orders and Regulations (Amendments 36, 37 and 38)
- 71 Rhan 1: Arolygu a Phwerau Mynediad (Gwelliannau 12, 13, 14 a 15)
Part 1: Inspection and Powers of Entry (Amendments 12, 13, 14 and 15)
- 74 Asesu Anghenion Plant—Effaith Aelodau o'r Teulu (Gwelliannau 34, 35 a 2)
Assessing Children's Needs—Effect of Family Members (Amendments 34, 35 and 2)

Yn y golofn chwith, cofnodwy y trafodion hyn yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y pwyllgor. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, these proceedings are reported in the language in which they were spoken in the committee. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

Aelodau'r pwyllgor yn bresennol
Committee members in attendance

Mick Bates	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (yn dirprwyo ar ran Jenny Randerson) Welsh Liberal Democrats (substitute for Jenny Randerson)
Ann Jones	Llafur (yn dirprwyo ar ran Jeff Cuthbert) Labour (substitute for Jeff Cuthbert)
Gareth Jones	Plaid Cymru The Party of Wales
Val Lloyd	Llafur (Cadeirydd y Pwyllgor) Labour (Chair of the Committee)
Sandy Mewies	Llafur Labour
Brynle Williams	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives

Eraill yn bresennol
Others in attendance

Brian Gibbons	Aelod Cynulliad, Llafur (y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol) Assembly Member, Labour (the Minister for Social Justice and Local Government)
Michael Lubienski	Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cynulliad Cymru Legal Services, Welsh Assembly Government

Swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bresennol
National Assembly for Wales officials in attendance

Sarah Beasley	Clerc Clerk
Claire Griffiths	Dirprwy Glerc Deputy Clerk
Joanest Jackson	Cynghorydd Cyfreithiol Legal Adviser
Sarah Sargent	Dirprwy Glerc Deputy Clerk

Dechreuodd y cyfarfod am 1.02 p.m.
The meeting began at 1.02 p.m.

Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions

[1] **Val Lloyd:** Good afternoon and welcome to today's meeting of Legislation Committee No. 2, where we will be considering Stage 2 of the Proposed Children and Families (Wales) Measure. Apologies have been received from Jeff Cuthbert and Jenny Randerson and I thank Ann Jones and Mick Bates, who are substituting for them. I would also like to extend a welcome to Brynle Williams, who has replaced Paul

Val Lloyd: Prynawn da a chroeso i gyfarfod Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 heddiw, lle y byddwn yn ystyried Cyfnod 2 y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru). Mae Jeff Cuthbert a Jenny Randerson wedi ymddiheuro ac yr wyf am ddiolch i Ann Jones a Mick Bates sy'n dirprwyo drostynt. Hoffwn hefyd groesawu Brynle Williams, sydd wedi dod yn aelod parhaol o'r pwyllgor yn lle Paul Davies.

Davies as a permanent member of the committee.

[2] The usual instructions apply. In the event of a fire alarm, please make your way to either of the exits. There is no test forecast, so it will be for real if you hear it. Turn off all mobile phones, pagers and BlackBerrys. As you know, they interfere with the broadcasting equipment. I remind everybody that we work through the media of both English and Welsh. Translation is available on channel 1 and amplification of the sound on channel 0. The microphones will come on automatically.

Yr un yw'r cyfarwyddiadau ag arfer. Os digwydd i'r gloch dân ganu, ewch at un o'r ddwy allanfa. Nid ydym yn disgwyl prawf, felly os bydd y gloch yn canu, bydd rheswm dilys dros hynny. Diffoddwch bob ffôn symudol, pob negesydd a phob Blackberry. Fel y gwyddoch, maent yn amharu ar yr offer darlledu. Yr wyf am atgoffa pawb ein bod yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd cyfieithiad ar gael ar sianel 1 a chwyddir y sain ar sianel 0. Bydd y meicroffonau'n gweithio'n awtomatig.

1.03 p.m.

Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)—Cyfnod 2: Ystyried Gwelliannau
The Proposed Children and Families (Wales) Measure—Stage 2: Consideration of Amendments

[3] **Val Lloyd:** I am going to take us through the procedure today because, for some people, it is their first time. In relation to the items before us, Members should have a copy of the proposed Measure, the marshalled list of amendments and a copy of the groupings of the amendments for debate today. The marshalled list of amendments is the list of all amendments tabled that have been marshalled into the order in which the sections appear in the proposed Measure. Schedules will be considered with the relevant sections that introduce them. So, for our meeting, which is the bit that we need to concentrate on, the order in which we will consider amendments will be: sections 1 to 12, sections 13 to 48, sections 49 to 58, sections 59 to 64, Schedule 1, section 65, Schedule 2, sections 66 to 68, any new sections and finally the long title.

Val Lloyd: Yr wyf am ein tywys drwy'r weithdrefn heddiw oherwydd, dyma'r tro cyntaf i rai pobl. O ran yr eitemau sydd ger ein bron, dylai fod gan yr Aelodau gopi o'r Mesur arfaethedig, y rhestr o'r gwelliannau wedi'u didoli a'r ddogfen sy'n grwpio'r gwelliannau a drafodir heddiw. Y rhestr o'r gwelliannau wedi'u didoli yw'r rhestr o'r holl welliannau a gyflwynwyd sydd wedi'u didoli yn ôl trefn yr adrannau yn y Mesur arfaethedig. Ystyrir Atodlenni gyda'r adrannau perthnasol sy'n eu cyflwyno. Felly, ar gyfer ein cyfarfod, sef y darn y mae angen inni ganolbwyntio arno, y drefn y byddwn yn ei dilyn wrth ystyried gwelliannau fydd: adrannau 1 i 12, adrannau 13 i 48, adrannau 49 i 58, adrannau 59 i 64, Atodlen 1, adran 65, Atodlen 2, adrannau 66 i 68, unrhyw adrannau newydd ac yn olaf, y teitl hir.

[4] You will see from the groupings list that amendments have been grouped to facilitate debate, but the order in which they are called and moved for a decision is dictated by the marshalled list. Members will need to follow the two papers, although I will advise Members when I call them whether they are being called to speak in the debate or to move their amendments for a decision. There will be only one debate on each group

Gwelwch o'r rhestr grwpio fod y gwelliannau wedi'u grwpio er mwyn hwyluso'r ddadl, ond dilynir trefn y rhestr o'r gwelliannau wedi'u didoli wrth eu galw a'u cynnig ar gyfer cael penderfyniad. Bydd angen i'r Aelodau ddilyn y ddau bapur, ond byddaf yn dweud wrth yr Aelodau wrth imi eu galw a ydynt yn cael eu galw i siarad yn y ddadl ynteu i gynnig eu gwelliannau er mwyn cael penderfyniad. Dim ond un drafodaeth a fydd

of amendments. I will call the proposer of the first amendment in the group, who should speak to and move their first amendment, and speak to the other amendments in that group.

[5] I will then call other speakers, including the proposers of any other amendments in that group, but they should not move their amendments at that stage. Members who do not have an amendment in the group but who wish to speak should indicate their wish to speak in the usual way. I will call the Minister to speak on each group. To conclude each debate, I will call the proposer of the first amendment in the group to wind up.

[6] Following the debate on a group or amendments, I will clarify whether the Member who moved the first amendment still wishes to press it to a decision. If not, he or she may seek the agreement of the committee to withdraw it. If it is not withdrawn, I will ask, in reference to the first amendment in the group, if the amendment is to be agreed to. It is my intention to record all votes so that the names of those voting for, against or abstaining will be recorded in the minutes.

[7] I will call the proposers of other amendments in each group to move their amendments at the appropriate time and in accordance with the marshalled list. If you do not wish to move your amendment, you should say so clearly when the amendment is called. For the record, only committee members can move amendments. Members will wish to be aware that, in line with the convention for the operation of legislation committees, I will move the amendments in the name of the Minister. Members will also be aware that the only way to debate a section of the proposed Measure is to have tabled an amendment to it. Any sections that do not have amendments tabled to them will be deemed to be agreed to, as will any sections where tabled amendments are not agreed to. For the sake of clarity, I will announce which sections have been agreed at the end of the meeting.

[8] There will be a further opportunity to table amendments to those sections that are not disposed of today. In order to be

ar gyfer pob grŵp o welliannau. Byddaf yn galw ar gynigydd y gwelliant cyntaf yn y grŵp, a dylai hwnnw siarad am y gwelliant cyntaf a'i gynnig, a siarad am y gwelliannau eraill sydd yn y grŵp hwnnw.

Yna, galwaf ar siaradwyr eraill, gan gynnwys cynigwyr unrhyw welliannau eraill yn y grŵp hwnnw, ond ni ddylent gynnig eu gwelliannau bryd hynny. Dylai'r Aelodau nad oes ganddynt welliant yn y grŵp ond sy'n dymuno siarad ddangos hynny yn y ffordd arferol. Byddaf yn galw ar y Gweinidog i siarad am bob grŵp. I gloi pob dadl, byddaf yn galw ar gynigydd gwelliant cyntaf y grŵp i ddirwyn pethau i ben.

Ar ôl y ddadl ynglŷn â grŵp o welliannau, byddaf yn gofyn a yw'r Aelod a gynigiodd y gwelliant cyntaf yn dal i ddymuno pwyso am benderfyniad. Os nad yw, caiff ef neu hi geisio cytundeb y pwyllgor i'w dynnu yn ôl. Oni chaiff ei dynnu yn ôl, byddaf yn gofyn, gan gyfeirio at y gwelliant cyntaf yn y grŵp, a dderbynnir y gwelliant. Fy mwriad yw cofnodi pob pleidlais er mwyn i enwau'r rhai sy'n pleidleisio o blaid, yn erbyn neu'n atal eu pleidlais gael eu cofnodi yn y cofnodion.

Byddaf yn galw ar gynigwyr gwelliannau eraill ym mhob grŵp i gynnig eu gwelliannau ar yr adeg briodol ac yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli. Os nad ydych am gynnig eich gwelliant, dylech ddweud hynny'n glir pan elwir y gwelliant. Er gwybodaeth, dim ond aelodau'r pwyllgor a gaiff gynnig gwelliannau. Dylai Aelodau gofio, yn unol â'r arfer wrth gynnal pwyllgorau deddfwriaeth, y byddaf fi'n cynnig y gwelliannau sydd yn enw'r Gweinidog. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol hefyd mai'r unig ffordd o drafod adran o'r Mesur arfaethedig yw cynnig gwelliant iddi. Bernir bod unrhyw adrannau nad oes gwelliannau wedi'u cynnig iddynt wedi'u derbyn, a bydd hynny'n wir hefyd am unrhyw adrannau y gwrthodir y gwelliannau a gyflwynwyd iddynt. Er mwyn bod yn glir, byddaf yn cyhoeddi ar ddiwedd y cyfarfod pa adrannau sydd wedi'u derbyn.

Bydd cyfle arall i gyflwyno gwelliannau i'r adrannau hynny nas gwaredir heddiw. Er mwyn eu hystyried yng nghyfarfod yr

considered during next week's meeting, amendments would need to be tabled by 5 p.m. today.

wythnos nesaf, byddai angen cyflwyno gwelliannau erbyn 5 p.m. heddiw.

[9] Do you have any questions? I see that you do not. We will, therefore, move to consider the amendments.

A oes gennych unrhyw gwestiynau? Gwelaf nad oes. Felly, ymlaen â ni i ystyried y gwelliannau.

**Y Nodau Eang—Dull sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn (Gwelliannau 40 a 41)
Broad Aims—Child-centred Approach (Amendments 40 and 41)**

[1] **Val Lloyd:** This group of amendments deals with the child-centred approach. In this group, the lead amendment is amendment 40, which is grouped with amendment 41. I invite Brynle Williams to move amendment 40 and to speak to the other amendment in the group.

Val Lloyd: Mae a wnelo'r grŵp hwn o welliannau â'r dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Yn y grŵp hwn, gwelliant 40 yw'r prif welliant, ac mae wedi'i grwpio gyda gwelliant 41. Gwahoddaf Brynle Williams i gynnig gwelliant 40 ac i siarad am y gwelliant arall yn y grŵp.

[2] **Brynle Williams:** I am very sorry, Chair, but I seem to have misplaced my notes on this group of amendments.

Brynle Williams: Mae'n ddrwg iawn gennyf, Gadeirydd, ond i bob golwg yr wyf wedi colli fy nodiadau am y grŵp hwn o welliannau.

[3] **Val Lloyd:** Given that we cannot continue until we have disposed of this group of amendments, I will allow a 10-minute adjournment for Brynle to find his notes.

Val Lloyd: Gan nad oes modd inni fwrw ymlaen nes inni waredu'r grŵp hwn o welliannau, caniatâf ohirio'r pwyllgor am 10 munud er mwyn i Brynle ddod o hyd i'w nodiadau.

*Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 1.09 p.m. ac 1.20 p.m.
The meeting adjourned between 1.09 p.m. and 1.20 p.m.*

[10] **Val Lloyd:** In this group, the first amendment to be considered is amendment 40. In the absence of the Member who was to move and speak to the lead amendment, any Member may move this amendment. Is there anybody who wishes to do so?

Val Lloyd: Yn y grŵp hwn, y gwelliant cyntaf i'w ystyried yw gwelliant 40. Gan nad yw'r Aelod a oedd i fod i gynnig y prif welliant a siarad amdano'n bresennol, caiff unrhyw Aelod gynnig y gwelliant hwn. A oes unrhyw un yn dymuno gwneud hynny?

[11] **Mick Bates:** I move amendment 40 in the name of Mark Isherwood and with the name of Jenny Randerson in support.

Mick Bates: Cynigïaf welliant 40 yn enw Mark Isherwood a chydag enw Jenny Randerson yn ei gefnogi.

[12] **Val Lloyd:** Ann Jones wishes to speak to this amendment.

Val Lloyd: Mae Ann Jones am siarad am y gwelliant hwn.

[13] **Ann Jones:** As a substitute on this committee, I have looked at the proposed Measure and the amendments very closely over the last 24 hours. I just wonder why the proposer of the amendment wants to add 'households in Wales'. It is a Welsh proposed Measure so can apply only to homes in Wales. I do not think that this is necessary in

Ann Jones: A minnau'n ddirprwy ar y pwyllgor hwn, yr wyf wedi edrych yn ofalus iawn ar y Mesur arfaethedig a'r gwelliannau yn ystod y 24 awr diwethaf. Yr wyf yn pendroni braidd pam mae cynigydd y gwelliant am ychwanegu 'aelwyd yng Nghymru'. Mesur a gynigir yng Nghymru yw hwn. Felly, ni all ond fod yn berthnasol i

the legislation.

gartrefi yng Nghymru. Ni chredaf fod angen hyn yn y ddeddfwriaeth.

[14] **Val Lloyd:** I see no other Members who wish to speak, so I call on the Minister.

Val Lloyd: Ni welaf fod yr un Aelod arall yn dymuno siarad, felly galwaf ar y Gweinidog.

[15] **The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons):** My first observation is along the lines of the contribution from Ann. If you look at section 2(1), there is a specific reference to the eradication of poverty in Wales, so, apart from the title of the proposed Measure, that should mean that there is no confusion in relation to what these broad aims deal with. I think that we could also question it, because if it is needed for sections 1(2)(a) and (b), why is it not similarly required for the other 11 broad aims? I do not consider that the case has been made to restrict the inclusion of 'in Wales' to sections 1(2)(a) and (b). For those reasons, it is unnecessary and would lead to a lack of consistency and, therefore, I would urge Members to reject these amendments.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons): Mae sylw cyntaf yn dilyn trywydd cyfraniad Ann. Os edrychwch ar adran 2(1), mae cyfeiriad penodol at ddileu tlodi yng Nghymru, felly, ar wahân i deitl y Mesur arfaethedig, dylai hynny olygu nad oes dryswch ynglŷn â'r hyn y mae'r nodau eang hyn yn ymwneud ag ef. Credaf y gallem gwestiynu hyn hefyd oherwydd os oes ei angen yn adrannau 1(2)(a) a (b), pam yn yr un modd nad oes ei angen ar gyfer yr 11 nod eang arall? Ni chredaf i neb lwyddo i'm hargyhoeddi bod angen cyfyngu cynnwys 'yng Nghymru' i adrannau 1(2)(a) a (b). Am y rhesymau hynny, mae'n ddiangen a byddai'n arwain at ddiffyg cysondeb. Felly, byddwn yn pwysu ar yr Aelodau i wrthod y gwelliannau hyn.

[16] **Val Lloyd:** Mick, as the person who moved amendment 40, do you want to respond or do you wish to proceed to a vote?

Val Lloyd: Mick, a chithau wedi cynnig gwelliant 40, a ydych am ymateb ynteu a ydych am symud i bleidlais?

[17] **Mick Bates:** Thank you for the offer, Chair, but I wish to move directly to the vote.

Mick Bates: Diolch am y cynnig, Gadeirydd, ond yr wyf am symud yn syth i'r bleidlais.

[18] **Val Lloyd:** The question is that amendment 40 be agreed to. I call for a vote.

Val Lloyd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 40. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 40: O blaid 1, Ymatal 0, Yn erbyn 3.
Amendment 40: For 1, Abstain 0, Against 3.*

Pleidleisiodd yr Aelod canlynol o blaid:
The following Member voted for:

Bates, Mick

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Jones, Ann
Jones, Gareth
Mewies, Sandy

*Gwrthodwyd gwelliant 40.
Amendment 40 not agreed.*

[19] **Val Lloyd:** As amendment 40 was not agreed, amendment 41 in the name of Mark Isherwood falls.

Val Lloyd: Gan fod gwelliant 40 wedi'i wrthod, mae gwelliant 41 yn enw Mark Isherwood yn methu.

*Methodd gwelliant 41.
Amendment 41 fell.*

**Tlodi Tanwydd (Gwelliant 42)
Fuel Poverty (Amendment 42)**

[20] **Val Lloyd:** Group 2 relates to fuel poverty. The lead amendment is amendment 42 in the name of Mark Isherwood. I invite any Member to move amendment 42.

Val Lloyd: Mae a wnelo grŵp 2 â thlodi tanwydd. Y prif welliant yw gwelliant 42 yn enw Mark Isherwood. Gwahoddaf unrhyw Aelod i gynnig gwelliant 42.

[21] **Mick Bates:** I move amendment 42 in the name of Mark Isherwood and with the name of Jenny Randerson in support.

Mick Bates: Cynigïaf welliant 42 yn enw Mark Isherwood a chydag enw Jenny Randerson yn ei gefnogi.

[22] **Val Lloyd:** Is there anyone who wishes to speak to amendment 42? I see that no-one does. Therefore, I call the Minister.

Val Lloyd: A oes unrhyw un yn dymuno siarad am welliant 42? Gwellaf nad oes. Felly, galwaf ar y Gweinidog.

[23] **Brian Gibbons:** I would urge the rejection of amendment 42 because we feel that the intention of amendment 42 is already covered in the broad aims, particularly the broad aims in relation to income. We recognise that, in trying to address the issue of income, there are many elements that will contribute to the income of a family, but to pick out fuel poverty in isolation when the case for doing so has not been made would add imbalance and lacks a coherent reason in relation to that one aspect of what is overall family income.

Brian Gibbons: Byddwn yn pwysu arnoch i wrthod gwelliant 42 oherwydd teimlwn fod bwriad gwelliant 42 wedi'i gynnwys eisoes yn y nodau eang, yn enwedig yn y nodau eang sy'n ymwneud ag incwm. Sylweddolwn, wrth geisio mynd i'r afael ag incwm, fod llawer o elfennau a fydd yn cyfrannu at incwm teulu, ond byddai cyfeirio at dlodi tanwydd ar ei ben ei hun pan nad yw'r ddadl dros wneud hynny wedi'n hargyhoeddi yn golygu bod y Mesur yn anghybwys ac nid oes rheswm rhesymegol dros gyfeirio at yr un elfen honno o incwm cyffredinol teulu.

[24] **Val Lloyd:** Thank you, Minister. I call on the proposer to reply to the debate.

Val Lloyd: Diolch, Weinidog. Galwaf ar y cynigydd i ymateb i'r ddadl.

[25] **Mick Bates:** I do not wish to respond.

Mick Bates: Nid wyf am ymateb.

[26] **Val Lloyd:** Mick, do you wish to move to a vote on amendment 42?

Val Lloyd: Mick, a ydych am symud i bleidlais ar welliant 42?

[27] **Mick Bates:** Yes, please.

Mick Bates: Ydwyf, os gwelwch yn dda.

Val Lloyd: The question is that amendment 42 be agered to. I call for a vote.

Val Lloyd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 42. Galwaf am bleidlais.

Gwelliant 42: O blaid 2, Ymatal 0, Yn erbyn 3.

Amendment 42: For 2, Abstain 0, Against 3.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Williams, Brynle

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Jones, Ann
Jones, Gareth
Mewies, Sandy

Gwrthodwyd gwelliant 42.

Amendment 42 not agreed.

**Tlodi, Amddifadedd Sylweddol, Incwm Canolrifol (Gwelliannau 43, 44 a 56)
Poverty, Material Deprivation, Median Income (Amendments 43, 44 and 56)**

- [28] **Val Lloyd:** Having disposed of amendment 42, we turn to the third group of amendments, which relate to issues of poverty, material deprivation, and median income. We will consider amendments 43, 44, and 56. I call on Brynle Williams to move the lead amendment and to speak to all three.
- [29] **Brynle Williams:** I move amendment 43 in the name of Mark Isherwood and with the name of Jenny Randerson in support.
- [30] The Stage 1 committee report stated the following, from paragraphs 16 to 20.
- [31] ‘We note the evidence from some stakeholders calling for determinations of material deprivation and median income to be set out on the face of the proposed Measure, rather than in regulations as currently provided for. (paragraph 112)’
- [32] ‘However, we accept the Minister’s argument that to make such provision in section 1 of the proposed Measure would unnecessarily limit the flexibility to vary these determinations in the future in order to ensure they keep pace with changing circumstances—something we consider to be very important. (paragraph 113)’
- [33] ‘As such, we do not consider that determinations of material deprivation and median income should be provided for on the face of the proposed Measure. (paragraph 114)’
- [34] ‘We do, however, share the concerns of some stakeholders that, in providing for Welsh authorities to make their own determination of material deprivation and median income in the absence of any regulations by the Welsh Ministers, section 1(6) could create a situation where different Welsh authorities across Wales make different determinations. (paragraph 115)’
- [35] ‘On this point, we strongly advocate
- Val Lloyd:** A ninnau wedi gwaredu gwelliant 42, trown at y trydydd grŵp o welliannau, sy’n ymwneud â thlodi, amddifadedd sylweddol ac incwm canolrifol. Ystyriwn welliannau 43, 44, a 56. Galwaf ar Brynle Williams i gynnig y prif welliant ac i siarad am bob un o’r tri.
- Brynle Williams:** Cynigïaf welliant 43 yn enw Mark Isherwood a chydag enw Jenny Randerson yn ei gefnogi.
- Yn adroddiad pwyllgor Cyfnod 1 dywedwyd y canlynol, ym mharagraffau 6 i 20.
- ‘Nodwn dystiolaeth rhai rhanddeiliaid yn gofyn am ddyfarniadau o amddifadedd sylweddol ac incwm canolrifol i gael eu cynnwys yn y Mesur arfaethedig, yn hytrach na mewn rheoliadau fel y darperir ar ei gyfer ar hyn o bryd. (paragraff 112)’
- ‘Fodd bynnag, rydym yn derbyn dadl y Gweinidog y byddai gwneud darpariaeth o’r fath yn adran 1 o’r Mesur arfaethedig yn cyfyngu’n ddiangen ar yr hyblygrwydd i amrywio’r dyfarniadau hyn yn y dyfodol er mwyn sicrhau eu bod yn ymateb i amgylchiadau sy’n newid—rhywbeth sy’n bwysig iawn yn ein barn ni. (paragraff 113)’
- ‘Felly, nid ydym yn credu y dylid darparu ar gyfer dyfarniadau o amddifadedd sylweddol ac incwm canolrifol yn y Mesur arfaethedig. (paragraff 114)’
- ‘Fodd bynnag, rydym yn rhannu pryderon rhai rhanddeiliaid y gallai darparu ar gyfer awdurdodau Cymreig i wneud eu penderfyniadau eu hunain ar amddifadedd sylweddol ac incwm canolrifol oherwydd absenoldeb unrhyw reoliadau gan Weinidogion Cymru olygu y gallai adran 1(6) greu sefyllfa lle mae awdurdodau Cymreig gwahanol ledled Cymru yn pennu dyfarniadau gwahanol. (paragraff 115)’
- ‘Pe bai’r sefyllfa hon yn codi, rydym yn

that, were this situation to arise, the Minister provide clear guidance for all Welsh authorities as to the determinations of material deprivation and median income they should be working to, in order to ensure a consistent approach is adopted across Wales which also takes account of the UK position. We would welcome a commitment from the Minister to this effect. (paragraph 116)'

[36] **Val Lloyd:** As there are no other speakers, Minister, do you wish to speak?

[37] **Brian Gibbons:** I would urge the committee to reject these amendments. It is our intention to bring forward regulations in respect of determining material deprivation and median income as soon as possible. We intend to align these measures with the set that the UK Government will use. The UK Government itself intends to publish regulations, following Royal Assent for the UK Poverty Bill.

[38] Amendment 44 is undesirable as it removes a provision, in the absence of regulations, for the determination of material deprivation and median income, that allows Welsh authorities to make that determination themselves. Colleagues need to remember that there is the potential for a time lag between when the necessary opportunities to develop competence in this regard and when the regulations are brought forward. So, if there is a gap between the times, we clearly need some measure by which authorities covered by this regulation can decide what deprivation is in their context.

1.30 p.m.

[39] The amendments would bring unnecessary inflexibility into the system, because, for example, the Department for Work and Pensions regularly reviews the list of necessities contained in the family resource survey, which is used to inform us on the definition of material deprivation. So, we need flexibility to change in line with developments elsewhere.

argymell yn gryf y dylai'r Gweinidog ddarparu canllawiau clir i'r holl awdurdodau Cymreig ynglŷn â'r dyfarniadau o amddifadedd sylweddol ac incwm canolrifol y dylent eu defnyddio, er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ledled Cymru sydd hefyd yn ystyried sefyllfa'r DU. Byddem yn croesawu ymrwymiad gan y Gweinidog i'r perwyl hwn. (paragraff 116)'

Val Lloyd: Gan nad oes yr un siaradwr arall, Weinidog, a ydych am siarad?

Brian Gibbons: Byddwn yn pwyso ar y pwyllgor i wrthod y gwelliannau hyn. Ein bwriad yw cyflwyno rheoliadau sy'n ymwneud â dyfarniadau ynglŷn ag amddifadedd sylweddol ac incwm canolrifol cyn gynted ag y bo modd. Bwriadwn gysoni'r mesurau hyn â'r set a ddefnyddir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei hun yn bwriadu cyhoeddi rheoliadau, ar ôl i Fesur Tlodi'r Deyrnas Unedig gael Cydsyniad Brenhinol.

Ni fyddem am weld derbyn Gwelliant 44 oherwydd pan nad oes rheoliadau ar gael, ei ei fod yn dileu darpariaeth ar gyfer cael dyfarniad ynglŷn ag amddifadedd sylweddol ac incwm canolrifol, sy'n caniatáu i awdurdodau Cymru wneud y dyfarniad hwnnw'u hunain. Mae angen i'm cyd-Aelodau gofio y gall cryn amser fynd heibio rhwng cael y cyfleoedd angenrheidiol i ddatblygu cymhwysedd yn y cyswllt hwn a chyflwyno'r rheoliadau. Felly, os bydd bwlch rhwng yr adegau hynny, mae'n amlwg bod angen rhyw ffordd i'r awdurdodau sy'n dod o dan y rheoliad hwn benderfynu beth yw amddifadedd yn eu cyd-destun hwy.

Byddai'r gwelliannau'n gwneud y drefn yn ddiangen o anhyblyg, oherwydd, er enghraifft, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau'n adolygu'n rheolaidd y rhestr o bethau angenrheidiol sydd yn yr arolwg adnoddau teuluol. Defnyddir honno'n sail wrth inni ddiffinio amddifadedd sylweddol. Felly, mae angen hyblygrwydd arnom fel y gallwn newid wrth i bethau ddatblygu mewn manau eraill.

[40] Again, we feel that amendment 56 is unnecessary, because sections 1(3) and 1(4) of the proposed Measure already describe the relevant income groups for the purposes of tackling child poverty in relation to the broad aims in subsections 1(2)(a) and 1(2)(b), which are defined at less than 60 per cent of median income and 70 per cent of median income respectively. On that basis, I urge that the amendments be rejected.

[41] **Val Lloyd:** Thank you very much. I call on Brynle Williams to reply to the debate.

[42] **Brynle Williams:** On the above arguments, amendments 43 and 44 confirm the duty—am I in the right place?

[43] **Val Lloyd:** You are now speaking in closing on that group, Brynle.

[44] **Brynle Williams:** I have nothing to say in closing.

[45] **Val Lloyd:** Brynle, do you wish to proceed to vote on amendment 43 or withdraw it?

[46] **Brynle Williams:** I wish to proceed to a vote.

[47] **Val Lloyd:** The question is that amendment 43 be agreed to. I call for a vote.

Unwaith eto, teimlwn fod gwelliant 56 yn ddiangen, oherwydd bod adrannau 1(3) ac 1(4) y Mesur arfaethedig eisoes yn disgrifio'r grwpiau incwm perthnasol er mwyn mynd i'r afael â thlodi plant yng nghyswllt y nodau eang yn isadrannau 1(2)(a) ac 1(2)(b), sef, yn ôl y diffiniad, llai na 60 y cant o'r incwm canolrifol a 70 y cant o'r incwm canolrifol, yn y drefn honno. Ar y sail honno, pwysaf arnoch i wrthod y gwelliannau.

Val Lloyd: Diolch yn fawr iawn. Galwaf ar Brynle Williams i ymateb i'r ddadl.

Brynle Williams: Ar sail y dadleuon uchod, mae gwelliannau 43 a 44 yn cadarnhau'r ddyletswydd—a wyf yn y man iawn?

Val Lloyd: Yr ydych yn siarad i gloi'r grŵp hwnnw yn awr, Brynle.

Brynle Williams: Nid oes gennyf ddim i'w ddweud wrth gloi.

Val Lloyd: Brynle, a ydych am symud i bleidlais ar welliant 43 ynteu ei dynnu yn ôl?

Brynle Williams: Yr wyf am symud i bleidlais.

Val Lloyd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 43. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 43: O blaid 2, Ymatal 0, Yn erbyn 3.
Amendment 43: For 2, Abstain 0, Against 3.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Williams, Brynle

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Jones, Ann
Jones, Gareth
Mewies, Sandy

*Gwrthodwyd gwelliant 43.
Amendment 43 not agreed.*

[48] **Val Lloyd:** As amendment 43 has been disposed of, we now come to dispose of amendment 44, in line with the marshalled list. Brynle, I invite you to move amendment 44.

[49] **Brynle Williams:** I move amendment 44 in the name of Mark

Val Lloyd: Gan inni waredu gwelliant 43, mae'n bryd inni yn awr waredu gwelliant 44, yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli. Brynle, yr wyf yn eich gwahodd i gynnig gwelliant 44.

Brynle Williams: Cynigïaf welliant 44 yn enw Mark Isherwood a chydag enw Jenny

Isherwood and with the name of Jenny Randerson yn ei gefnogi.
Randerson in support.

[50] **Val Lloyd:** The question is that amendment 44 be agreed to. I call for a vote. **Val Lloyd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 44. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 44: O blaid 2, Ymatal 0, Yn erbyn 3.
Amendment 44: For 2, Abstain 0, Against 3.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Williams, Brynle

*Gwrthodwyd gwelliant 44.
Amendment 44 not agreed.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Jones, Ann
Jones, Gareth
Mewies, Sandy

[51] **Val Lloyd:** For your information, there will be no vote on amendment 56 at this point. We will vote on that amendment later in the proceedings. **Val Lloyd:** Er gwybodaeth ichi, ni fyddwn yn pleidleisio ar welliant 56 ar hyn o bryd. Byddwn yn pleidleisio ar y gwelliant hwnnw'n ddiweddarach yn y trafodaethau.

Strategaethau—Targedau a Cherrig Milltir (Gwelliant 57) Strategies—Targets and Milestones (Amendment 57)

[52] **Val Lloyd:** I call on Mick Bates to move and speak to the lead amendment, amendment 57 in the name of Jenny Randerson. **Val Lloyd:** Galwaf ar Mick Bates i gynnig y prif welliant a siarad amdano, sef gwelliant 57 yn enw Jenny Randerson.

[53] **Mick Bates:** I move amendment 57 in the name of Jenny Randerson and with the name of Mark Isherwood in support. **Mick Bates:** Cynigïaf welliant 57 yn enw Jenny Randerson a chydag enw Mark Isherwood yn ei gefnogi.

[54] This amendment seeks to provide a requirement that authorities should strive to achieve targets or milestones when implementing their strategies. Unlike the Child Poverty Bill, the proposed Measure does not set a target to be achieved by a target year. On that basis, we are taking an approach that is similar to that taken in the Local Government (Wales) Measure 2009, and providing an additional power for the Welsh Ministers to provide performance indicators in regulations relating to strategies. I hope that the Minister will clearly signal his support for this so that he and his colleagues will be granted powers to give the proposed Measure teeth and the potential for bold milestones and achievements. Nod y gwelliant hwn yw ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ymdrechu i gyrraedd targedau neu gerrig milltir wrth roi eu strategaethau ar waith. Yn wahanol i'r Mesur Tlodi Plant, nid yw'r Mesur arfaethedig yn gosod targed i'w gyflawni erbyn blwyddyn darged. Ar y sail honno, yr ydym yn mynd ati mewn ffordd debyg i'r hyn a geir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac yn rhoi pŵer ychwanegol i Weinidogion Cymru ddarparu dangosyddion perfformiad mewn rheoliadau sy'n berthnasol i strategaethau. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn dangos ei gefnogaeth yn glir i hyn er mwyn iddo ef a'i gyd-Weinidogion gael pwerau i roi dannedd i'r Mesur arfaethedig a'r posibilrwydd o bennu cerrig milltir beiddgar a llwyddo.

[55] **Val Lloyd:** There are no other speakers, therefore, Minister, I call upon you to speak. **Val Lloyd:** Nid oes yr un siaradwr arall, felly, Weinidog, galwaf arnoch i siarad.

[56] **Brian Gibbons:** If we look at the wording, it is ‘performance indicators’ rather than milestones, which is a relevant distinction. However, I agree with the broader point that Mick made in his contribution. It is important that we are able to monitor progress against targets and have a real feel for what progress looks like. So, it is important that we can reassure ourselves that Welsh authorities are making progress towards achieving our objective of eradicating child poverty by 2020. However, I am not convinced that adding a new set of performance indicators, rather than milestones, to the arrangement already in place, is desirable. We already have an overcluttered field of targets and we must ask ourselves whether this further set of targets will add value to the current range of measurement tools that we have in place, or what is further planned.

[57] It is important to recognise that a considerable amount of work is currently under way to streamline and rationalise the range of targets by which performance is measured so that we have greater clarity with regard to what we aspire to achieve and what we are achieving. One way in which we have already committed to achieving this is through the publication of the wellbeing monitor. We have published one edition of that already; another edition is due in 2010 and we will be publishing it every three years thereafter. We are also in the process of developing a new outcomes measure framework, which will provide a set of measures for each core aim that underpins the children and young people’s plan, which will be one of the main delivery vehicles for this proposed Measure. This framework will consist of high-level measures on which all of the plans across local authorities in Wales must report and also has groups of additional measures from which selection can be made in measuring performance against local priorities.

[58] The framework is being designated to incorporate, as well as the seven core aims of the local plans, the 13 broad aims set out in this proposed Measure, thereby supporting the policy intention that local child poverty strategies are firmly integrated in the children

Brian Gibbons: Os edrychwn ar y geiriad, mae’n dweud ‘dangosyddion perfformiad’ yn hytrach na cherrig milltir, sy’n wahaniaeth perthnasol. Fodd bynnag, cytunaf â’r pwynt ehangach a wnaeth Mick yn ei gyfraniad. Mae’n bwysig inni allu monitro cynnydd o’i gymharu â thargedau a’n bod yn wir yn gwybod sut beth yw cynnydd. Felly, mae’n bwysig inni allu bod yn dawel ein meddwl bod awdurdodau Cymru’n camu ymlaen tuag at gyflawni’n nod o ddileu tlodi plant erbyn 2020. Serch hynny, nid wyf yn argyhoeddedig bod ychwanegu set newydd o ddangosyddion perfformiad, yn hytrach na cherrig milltir, at y trefniant sydd gennym eisoes, yn beth da. Mae gennym eisoes faes sy’n orlawn o dargedau a rhaid inni ofyn inni’n hunain a wnaiff y set ychwanegol hon o dargedau ychwanegu gwerth at yr ystod o ddulliau mesur sydd gennym eisoes, neu at y rhai y bwriedir eu cyflwyno eto.

Mae’n bwysig sylweddoli bod cryn waith ar y gweill eisoes i symleiddio a chysoni’r ystod o dargedau a ddefnyddir i fesur perfformiad er mwyn inni fod yn fwy clir ynglŷn a’r hyn yr ydym yn dyheu i’w gyflawni a’r hyn yr ydym yn ei gyflawni. Yr ydym eisoes wedi ymrwymo mewn un ffordd i gyflawni hyn drwy gyhoeddi’r monitor lles. Yr ydym wedi cyhoeddi un rhifyn o hwnnw eisoes; mae rhifyn arall ar y ffordd yn 2010 a byddwn yn ei gyhoeddi bob tair blynedd wedi hynny. Yr ydym hefyd wrthi’n datblygu fframwaith mesur canlyniadau newydd a fydd yn cynnig set o ddulliau mesur ar gyfer pob nod craidd sy’n sail i’r cynllun plant a phobl ifanc. Dyma un o’r prif gyfryngau ar gyfer gwireddu’r Mesur arfaethedig hwn. Bydd y fframwaith hwn yn cynnwys dulliau mesur lefel-uchel y bydd yn rhaid i’r holl gynlluniau ar draws awdurdodau lleol Cymru gyflwyno adroddiadau yn eu cylch. Mae hefyd yn cynnwys grwpiau o ddulliau mesur ychwanegol y gellir dethol o’u plith wrth fesur perfformiad ar sail blaenoriaethau lleol.

Pennir y bydd y fframwaith yn cynnwys, yn ogystal â saith nod craidd y cynlluniau lleol, y 13 nod cyffredinol a nodir yn y Mesur arfaethedig hwn, a thrwy hynny, mae’n cefnogi’r bwriad yn y polisi sef bod strategaethau tlodi plant lleol yn cael eu

and young people plan. We intend to have a consultation period on this outcome measures framework by April 2010.

[59] Outcome measures included in the Welsh Ministers' child poverty strategy will need to link and reflect this work across the children and young people's plans as well as the strategies flowing from the child poverty Measure. In addition, setting prescriptive national targets will mitigate the very local bases by which these strategies will be delivered. The proposed Measure will be asking local authorities to decide on the crucial objectives to deliver against child poverty targets at a local level, and there is a risk that unduly prescriptive national targets will not contribute to that local sensitivity. It may, in fact, result in a chase after the target rather than addressing local needs. In conclusion, we recognise the clear necessity of being able to measure progress. We have a number of means of doing that already in hand and we have a very comprehensive set of proposals in the pipeline that will, hopefully, address the purpose of the amendment. I would urge Mick to withdraw his amendment; but if not, I would urge the committee to oppose it.

[60] **Val Lloyd:** Thank you. I call upon Mick Bates to reply to the debate.

[61] **Mick Bates:** I listened intently to your response, Minister. I remind you that this is an additional power to a Welsh Minister, as with the local government Measure, which we consider to be an important tool to set performance indicators when required. I appreciate the list of indicators that you have outlined, and the sensitivity to local need, however, the crucial point and the opportunity that we have in creating this legislation is to make sure that those good intentions are transferred into action. I believe that it is only through having the power for the Welsh Ministers to set performance indicators and targets that we can scrutinise the achievement. Otherwise, we will be left up in the air. As you have just stated, there are good intentions at a local level with great sensitivity, but that does not

hintegreiddio'n gadarn yn y cynllun plant a phobl ifanc. Ein bwriad yw cynnal cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r fframwaith mesur canlyniadau hwn erbyn mis Ebrill 2010.

Bydd angen i'r dulliau mesur canlyniadau a gynhwysir yn strategaeth tlodi plant Gweinidogion Cymru gydgysylltu â'r gwaith hwn a'i adlewyrchu ar draws y cynlluniau plant a phobl ifanc yn ogystal â'r strategaethau sy'n deillio o'r Mesur tlodi plant. Yn ogystal â hyn, gallai pennu targedau cenedlaetholamharu ar wireddu'r strategaethau hyn a roddir ar waith ar seiliau lleol iawn. Bydd y Mesur arfaethedig yn gofyn i awdurdodau lleol benderfynu ynglŷn â'r amcanion hollbwysig er mwyn gwireddu targedau tlodi plant ar lefel leol, ac wrth orbennu targedau cenedlaethol gallai hynny amharu ar y sensitifrwydd lleol hwnnw. Mewn gwirionedd, gall olygu bod rhywun yn mynd ar drywydd y targed yn hytrach na mynd i'r afael ag anghenion lleol. I gloi, sylweddolwn ei bod yn amlwg bod angen gallu mesur cynnydd. Mae gennym nifer o ddulliau o wneud hynny eisoes ac mae gennym set gynhwysfawr iawn o gynigion ar y gweill a fydd, gobeithio, yn mynd i'r afael â phwrpas y gwelliant. Byddwn yn pwysu ar Mick i dynnu ei welliant yn ôl; ond os na wnaiff hynny, byddwn yn pwysu ar y pwyllgor i'w wrthod.

Val Lloyd: Diolch. Galwaf ar Mick Bates i ymateb i'r ddadl.

Mick Bates: Gwrandewais yn astud ar eich ymateb, Weinidog. Fe'ch atgoffaf fod gan Weinidogion Cymru bŵer ychwanegol, fel sy'n wir yng nghyswllt y Mesur llywodraeth leol, pŵer yr ydym yn ei ystyried yn arf bwysig, sef y pŵer i osod dangosyddion perfformiad pan fydd gofyn. Sylweddolaf fod gennym y rhestr o ddangosyddion a grybwyllwyd gennych, a bod angen bod yn sensitif i anghenion lleol. Fodd bynnag, y pwynt hollbwysig a'r cyfle sydd gennym wrth greu'r ddeddfwriaeth hon yw sicrhau bod y bwriadau da hyn yn cael eu gwireddu. Credaf mai dim ond trwy gael y pŵer i Weinidogion Cymru osod dangosyddion perfformiad a thargedau y gallwn graffu ar y llwyddiant. Fel arall, byddwn yn cael ein gadael yn nhir neb. Fel yr ydych newydd ei ddweud, mae bwriadau da ar lefel leol a

necessarily mean that that would be achieved without power being vested in a Welsh Minister to say, 'You are not meeting your performance indicators'. I beg to move this amendment.

sensitifrwydd mawr, ond nid yw hynny o reidrwydd yn golygu y llwyddid i wneud hynny heb roi'r pŵer i un o Weinidogion Cymru ddweud, 'Nid ydych yn cyflawni'ch dangosyddion perfformiad'. Cynigiau y gwelliant hwn.

[62] **Val Lloyd:** Mick Bates, do you wish to proceed to a vote on amendment 57 or withdraw it?

Val Lloyd: Mick Bates, a ydych am symud i bleidlais ar welliant 57 ynteu ei dynnu yn ôl?

[63] **Mick Bates:** I wish to proceed to a vote.

Mick Bates: Yr wyf am symud i bleidlais.

[64] **Val Lloyd:** The question is that amendment 57 be agreed to. I call for a vote.

Val Lloyd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 57. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 57: O blaid 2, Ymatal 0, Yn erbyn 3.
Amendment 57: For 2, Abstain 0, Against 3.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Williams, Brynle

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Jones, Ann
Jones, Gareth
Mewies, Sandy

*Gwrthodwyd gwelliant 57.
Amendment 57 not agreed.*

Strategaethau—Dyletswyddau Gweinidogion Cymru i Ymgynghori (Gwelliannau 3, 58 a 4)

Strategies—Duties of the Welsh Ministers to Consult (Amendments 3, 58 and 4)

[65] **Val Lloyd:** The lead amendment is amendment 3 in the name of Brian Gibbons, which is grouped with amendments 4 and 58. Minister, would you like amendment 3 in your name to be moved?

Val Lloyd: Y prif welliant yw gwelliant 3 yn enw Brian Gibbons, sydd wedi'i grwpio gyda gwelliannau 4 a 58. Weinidog, a hoffech imi gynnig gwelliant 3 yn eich enw?

[66] **Brian Gibbons:** Yes, Chair.

Brian Gibbons: Hoffwn, Gadeirydd.

[67] **Val Lloyd:** I move amendment 3 in the name of Brian Gibbons. I call on the Minister to speak to amendment 3 and the other amendments in the group.

Val Lloyd: Cynigiau welliant 3 yn enw Brian Gibbons. Galwaf ar y Gweinidog i siarad am welliant 3 a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

1.40 p.m.

[68] **Brian Gibbons:** Thank you, Chair. The proposed Measure currently includes a duty for the Welsh Ministers to consult 'such persons as they consider appropriate' on the content of the strategy. Amendment 3 will have the effect of placing an explicit obligation that the Secretary of State be

Brian Gibbons: Diolch, Gadeirydd. Ar hyn o bryd, mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys dyletswydd ar i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r 'cyfryw bersonau ag y maent o'r farn eu bod yn briodol' ynglŷn â chynnwys y strategaeth. Effaith gwelliant 3 fydd ei gwneud yn ddyletswydd benodol

consulted. This, in effect, is a reciprocal provision to that which appears in relation to devolved administrations in the Child Poverty Bill currently before the Houses of Parliament. The UK Bill places a requirement that the Welsh Ministers should be consulted on the content of the UK Government's initial and revised child poverty strategy. The Bill also includes provision that, before reporting annually on progress to the UK Parliament, the Welsh Ministers should be consulted. I am keen that the two pieces of child poverty legislation, at a UK and a Welsh level, are complementary. I have, therefore, made it clear that we should be doing what we can to ensure that arrangements are in place to achieve this alignment.

ymgyngori â'r Ysgrifennydd Gwladol. Mewn gwirionedd, darpariaeth ddwy ffordd yw hon sy'n cyfateb i'r hyn a ddywedir am y gweinyddiaethau datganoledig yn y Mesur Tlodi Plant sydd gerbron Tai'r Senedd ar hyn o bryd. Mae mesur y Deyrnas Unedig yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â Gweinidogion Cymru ynglŷn â chynnwys strategaeth tldi plant gychwynnol a diwygiedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'r Mesur hefyd yn cynnwys darpariaeth y dylid ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn cyflwyno'r adroddiad blynyddol ynglŷn â chynnydd i Senedd y Deyrnas Unedig. Yr wyf yn awyddus i'r ddau ddam o ddeddfwriaeth tldi plant, ar lefel y Deyrnas Unedig ac ar lefel Cymru, ategu ei gilydd. Felly, yr wyf wedi'i gwneud yn glir y dylem fod yn gwneud yr hyn a allwn i sicrhau bod trefniadau ar waith i sicrhau'r cysondeb hwn.

[69] Amendment 4 relates to amendment 3. The imposition of a duty on the Welsh Ministers to consult the Secretary of State could be construed as imposing a duty on the Secretary of State to be consulted, or to imply the necessity of a power to respond to the consultation. However, this would offend against the prohibition of conferring a function on a Minister of the Crown. So, amendment 4 is put forward for the purposes of clarity and to remove any doubts.

Mae gwelliant 4 yn gysylltiedig â gwelliant 3. Gellid dehongli bod ei gwneud yn ddyletswydd i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol gyfystyr â'i gwneud yn ddyletswydd i ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol, neu ag awgrymu bod angen pŵer i ymateb i'r ymgynghori. Serch hynny, byddai hyn yn groes i wahardd rhoi swyddogaeth i un o Weinidogion y Goron. Felly, cynigir gwelliant 4 er mwyn bod yn glir ac osgoi unrhyw amheuaeth.

[70] **Val Lloyd:** Thank you, Minister. I have an indication from Ann Jones to speak.

Val Lloyd: Diolch, Weinidog. Mae Ann Jones wedi dangos ei bod am siarad.

[71] **Brian Gibbons:** Chair, amendment 58 has not yet been moved.

Brian Gibbons: Gadeirydd, nid yw gwelliant 58 wedi'i gynnig eto.

[72] **Val Lloyd:** No, it has not. It is in the same group, so it does not have to be formally moved at this stage.

Val Lloyd: Nac ydyw. Mae yn yr un grŵp, felly nid oes yn rhaid ei gynnig yn ffurfiol ar hyn o bryd.

[73] **Brian Gibbons:** So, do you want—

Brian Gibbons: Felly, a ydych am—

[74] **Val Lloyd:** You can speak to the amendment, because it is in the group. You speak to amendments 3, 58 and 4 together, but it does not have to be moved; only the lead amendment has to be formally moved.

Val Lloyd: Cewch siarad am y gwelliant, am ei fod yn y grŵp. Cewch siarad am welliannau 3, 58 a 4 gyda'i gilydd, ond nid oes yn rhaid ei gynnig; y prif welliant yn unig y mae'n rhaid ei gynnig yn ffurfiol.

[75] **Brian Gibbons:** Okay. I will say a few words on amendment 58. We urge rejection of amendment 58, because we

Brian Gibbons: Iawn. Dywedaf ychydig o eiriau am welliant 58. Pwyswn arnoch i wrthod gwelliant 58, oherwydd credwn fod

believe that the Assembly Government has an excellent record on consultation. There is no evidence, on the basis of current practice, that a duty to consult should be put on the face of the proposed Measure. Indeed, if you look at the record of developing child poverty work to date, we have regular meetings with the End Child Poverty Network Cymru, and Save the Children has been commissioned to do work on behalf of the Assembly Government to inform our work. Equally, our policy is influenced by third sector organisations, such as the Bevan Foundation and the Joseph Rowntree Foundation. So, we do not believe, on the basis of current practice, that this amendment is necessary.

[76] Including this duty on the face of the proposed Measure suggests that our current duties, under the Government of Wales Act 2006, and our third sector scheme, are somehow deficient. We are obliged, by the Government of Wales Act, to engage with the third sector, and consult on all matters that are relevant to it and on which it can legitimately have an interest. Consequently, introducing this amendment would suggest that, in some way, that duty is not being complied with, and that we need a further legal framework by which to undertake the work that we are already legally bound to do under the Government of Wales Act. So, in view of our consistent record in consultation with the third sector and our existing legal duties, I do not feel that this amendment is necessary or appropriate.

[77] **Ann Jones:** I am glad to hear the Minister speak to amendment 3, because I feel that it is important that, while we are considering child poverty and creating our own Measure, we must link it to what is happening in the UK Government, because so much of the UK Government's benefits affect people here in child poverty. So, I am pleased to see that.

[78] On amendment 58, when we look at legislation like this, people tend to forget the Government of Wales Act 2006; there are

hanes Llywodraeth y Cynulliad, o ran ymgynghori, yn un ardderchog. Nid oes dim dystiolaeth, ar sail ein harferion presennol, y dylid cynnwys dyletswydd i ymgynghori yn y Mesur arfaethedig. Yn wir, os edrychwch ar ein hanes wrth ddatblygu gwaith tlodi plant hyd yn hyn, yr ydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru ac mae Achub y Plant wedi'i gomisiynu i wneud gwaith ar ran Llywodraeth y Cynulliad yn sail i'n gwaith. Yn yr un modd, mae mudiadau'r trydydd sector yn dylanwadu ar ein polisi, cyrff megis Sefydliad Bevan a Sefydliad Joseph Rowntree. Felly, ni chredwn, ar sail ein harferion presennol, fod angen y gwelliant hwn.

Mae cynnwys y ddyletswydd hon yn y Mesur arfaethedig yn awgrymu bod ein dyletswyddau presennol, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a'n cynllun ar gyfer y trydydd sector, rywsut yn ddiffygiol. Mae'n ddyletswydd arnom, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, ymgysylltu â'r trydydd sector, ac ymgynghori ynglŷn â phob mater sy'n berthnasol iddo ac y gall fod ganddo ddiddordeb dilys ynddo. Felly, byddai cyflwyno'r gwelliant hwn yn awgrymu nad ydym mewn rhyw fodd yn cydymffurfio â'r ddyletswydd honno, a bod angen inni gael fframwaith cyfreithiol arall er mwyn gwneud y gwaith yr ydym eisoes yn gyfreithiol rwym o'i wneud o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru. Felly, am fod gennym hanes cyson o ymgynghori â'r trydydd sector a'r dyletswyddau cyfreithiol sydd gennym eisoes, ni chredaf fod y gwelliant hwn nac yn angenrheidiol nac yn briodol.

Ann Jones: Yr wyf yn falch o glywed yn Gweinidog yn siarad am welliant 3, oherwydd teimlaf ei bod yn bwysig, wrth inni ystyried tlodi plant a chreu ein Mesur ni'n hunain, ei bod yn rhaid inni gysylltu hynny â'r hyn sy'n digwydd yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig, oherwydd bod cynifer o fudd-daliadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn effeithio ar bobl yma sy'n wynebu tlodi plant. Felly, yr wyf yn falch o weld hynny.

O ran gwelliant 58, wrth inni edrych ar ddeddfwriaeth fel hyn, bydd pobl yn tueddu i anghofio Deddf Llywodraeth Cymru 2006;

sufficient powers under that Act, and we should look at those before we go running off to ask for other powers to be devolved.

[79] **Mick Bates:** I want to speak to amendment 58 in the name of Jenny Randerson, which seeks to ensure that, when drawing up strategies, the Welsh authorities, including the Welsh Ministers, must consult with relevant voluntary organisations. We are seeking to enshrine and secure the input of the voluntary sector in this process through this amendment, and I hope that Members will give their support in order to achieve that.

[80] On a note of process, I understand that, if amendment 3 passes, then amendment 58 will fall. I would urge the Minister to withdraw amendment 3 in order to allow the important amendment 58 to pass. He could of course then bring back his amendment at Stage 3. If he will not consider that, then I hope that he will signal that he will bring an amendment similar to 58 at Stage 3. I hear what the Minister had to say, but I am deeply concerned on behalf of the voluntary sector that, as has already been stated, although the Government of Wales Act 2006 contains a duty, this section is important to ensure that consultation takes place in the context of this legislation. I fear that, at some stages, that is not the case. The Minister talked about current practice, but I do not believe that such a mandate currently exists, and that is why amendment 58 is particularly important.

[81] **Val Lloyd:** Thank you, Mick. Minister, would you like to reply to the debate?

[82] **Brian Gibbons:** It is not just about current practice—which I think stands scrutiny—but the law also requires us to consult, because that is specified in the Government of Wales Act. This amendment adds nothing to current statutory duties, and nothing to current practice.

[83] **Val Lloyd:** Do you want to move to

mae digon o bwerau o dan y Ddeddf honno, a dylem edrych ar y rheini cyn inni ruthro i ofyn am ddatganoli pwerau eraill.

Mick Bates: Yr wyf am siarad am welliant 58 yn enw Jenny Randerson, sy'n ceisio sicrhau, wrth lunio strategaethau, ei bod yn rhaid i awdurdodau Cymru, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, ymgynghori â mudiadau gwirfoddol perthnasol. Yr ydym yn ceisio cynnwys a sicrhau cyfraniad y sector gwirfoddol yn y broses hon drwy gyfrwng y gwelliant hwn, a gobeithiaf y bydd yr Aelodau'n ei gefnogi er mwyn cyflawni hynny.

O ran y broses, caf ar ddeall, os derbynnir gwelliant 3, yna y bydd gwelliant 58 yn methu. Byddwn yn pwyso ar y Gweinidog i dynnu gwelliant 3 yn ôl er mwyn caniatáu inni dderbyn gwelliant 58 sy'n welliant pwysig. Wrth gwrs, gallai wedyn ddod â'i welliant yn ôl yng Nghyfnod 3. Oni wnaiff ystyried hynny, yna, gobeithiaf y bydd yn dangos y gwnaiff gyflwyno gwelliant tebyg i welliant 58 yng Nghyfnod 3. Yr wyf yn clywed yr hyn a ddywedodd y Gweinidog, ond yr wyf yn awyddus iawn ar ran y sector gwirfoddol i sicrhau bod ymgynghori'n digwydd yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth hon. Mae'r adran hon yn bwysig yn hynny o beth, er, fel y dywedwyd eisoes, bod Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cynnwys dylestwydd. Ofnaf, yn ystod rhai camau, nad yw hynny'n digwydd. Cyfeiriodd y Gweinidog at arferion presennol, ond ni chredaf fod mandad o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd, a dyna pam mae gwelliant 58 yn arbennig o bwysig.

Val Lloyd: Diolch, Mick. Weinidog, a hoffech ymateb i'r ddadl?

Brian Gibbons: Nid arferion presennol yn unig sydd dan sylw—ac ni chredaf fod unrhyw amheuaeth ynghylch yr arferion hynny—ond mae'r gyfraith hefyd yn mynnu ein bod yn ymgynghori, oherwydd bod hynny wedi'i gynnwys yn benodol yn Neddf Llywodraeth Cymru. Nid yw'r gwelliant hwn yn ychwanegu dim at ddyletswyddau statudol presennol, na dim at arferion presennol.

Val Lloyd: A ydych am symud i bleidlais,

a vote, Minister?

Weinidog?

[84] **Brian Gibbons:** Yes.

Brian Gibbons: Ydwyf.

[85] **Val Lloyd:** The question is that amendment 3 be agreed to. I call for a vote.

Val Lloyd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 3. Galwaf am bleidlais.

Gwelliant 3: O blaid 3, Ymatal 0, Yn erbyn 2.

Amendment 3: For 3, Abstain 0, Against 2.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Jones, Ann
Jones, Gareth
Mewies, Sandy

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bates, Mick
Williams, Brynle

Derbyniwyd gwelliant 3.

Amendment 3 agreed.

[86] **Val Lloyd:** Given that amendment 3 has been agreed, amendment 58 falls, as was mentioned.

Val Lloyd: Gan fod gwelliant 3 wedi'i dderbyn, mae gwelliant 58 yn methu, fel y crybwyllwyd.

Methodd gwelliant 58.

Amendment 58 fell.

[87] **Val Lloyd:** We now move to amendment 4. Minister, do you wish to proceed to a vote on amendment 4?

Val Lloyd: Symudwn yn awr at welliant 4. Weinidog, a ydych am symud i bleidlais ar welliant 4?

[88] **Brian Gibbons:** Yes, Chair.

Brian Gibbons: Ydwyf, Gadeirydd.

[89] **Val Lloyd:** I move amendment 4 in the name of Brian Gibbons.

Val Lloyd: Cynigïaf welliant 4 yn enw Brian Gibbons.

[90] The question is that amendment 4 be agreed to. I call for a vote

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 4. Galwaf am bleidlais.

Gwelliant 4: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Amendment 4: For 5, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Jones, Ann
Jones, Gareth
Mewies, Sandy
Williams, Brynle

Derbyniwyd gwelliant 4.

Amendment 4 agreed.

Strategaethau—Adroddiadau Blynyddol Dros Dro (Gwelliant 59) Strategies—Interim Annual Reporting (Amendment 59)

[91] **Val Lloyd:** This amendment relates

Val Lloyd: Mae a wnelo'r gwelliant hwn ag

to interim annual reporting on strategies. I call on Mick Bates to move and speak to the amendment.

[92] **Mick Bates:** I move amendment 59 in the name of Jenny Randerson and with the name of Mark Isherwood in support.

[93] This amendment seeks to enshrine effective scrutiny of the annual aims of this entire piece of legislation. While I appreciate and welcome the inclusion of a full report to the Assembly every third year, the Stage 1 committee was clear in its recommendations that an annual interim report is essential in order to effectively monitor progress. Put simply, although the committee recognised that it is difficult to properly measure success based on the indicators available to us, failing to discuss this more than every three years will lead to missed opportunities to put things right, and to check whether we are on course. As well as reporting to the Assembly, we also believe that an appropriate committee should have an annual opportunity to scrutinise in detail the progress made and identified in the Government report. There is little point in the bold aims of this proposed Measure unless we are able to measure successes, scrutinise and suggest changes. This amendment is in line with the Stage 1 report, so I hope that it will receive support from everyone.

[94] **Val Lloyd:** I call on the Minister to reply.

1.50 p.m.

[95] **Brian Gibbons:** I would urge rejection of this amendment. I agree with the substantive point that Mick has made: it is important that reporting on progress is seen to be open and transparent, but it is equally important that the reporting process is meaningful and robust. During the Stage 1 scrutiny process on the proposed Measure, I indicated that I was keen to ensure that the Assembly's Children and Young People Committee receives an annual update on progress against our child poverty targets, which are set out in 'Eradicating Child Poverty in Wales—Measuring Success'. That contains 31 or 32 indicators. However, we must be cognisant of the limitations of

adroddiadau blynyddol dros dro ar strategaethau. Galwaf ar Mick Bates i gynnig y gwelliant a siarad amdano.

Mick Bates: Cynigiau welliant 59 yn enw Jenny Randerson a chydag enw Mark Isherwood yn ei gefnogi.

Nod y gwelliant hwn yw sicrhau craffu effeithiol ar nodau blynyddol y darn hwn o ddeddfwriaeth yn ei gyfanrwydd. Er fy mod yn sylweddoli bod adroddiad llawn i'r Cynulliad bob tair blynedd wedi'i gynnwys ac fy mod yn croesawu hynny, yr oedd pwyllgor Cyfnod 1 yn argymhell yn glir bod adroddiad blynyddol dros dro'n hanfodol er mwyn monitro cynnydd yn effeithiol. Yn syml, er bod y pwyllgor yn cydnabod ei bod yn anodd mesur llwyddiant yn iawn ar sail y dangosyddion sydd ar gael inni, bydd methu â thrafod hyn yn amlach na phob tair blynedd yn golygu colli cyfle i unioni pethau, ac i weld a ydym ar y trywydd iawn. Yn ogystal ag adrodd i'r Cynulliad, credwn hefyd y dylai pwyllgor priodol gael cyfle bob blwyddyn i graffu'n fanwl ar y cynnydd a wnaethpwyd ac a nodwyd yn adroddiad y Llywodraeth. Nid oes fawr o bwynt cael y nodau uchelgeisiol sydd yn y Mesur arfaethedig hwn oni allwn fesur llwyddiannau, craffu ac awgrymu newidiadau. Mae'r gwelliant hwn yn unol ag adroddiad Cyfnod 1, felly gobeithiaf y bydd pawb yn ei gefnogi.

Val Lloyd: Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

Brian Gibbons: Byddwn yn pwysu arnoch i wrthod y gwelliant hwn. Cytunaf â'r pwynt y mae Mick wedi'i wneud yn ei hanfod: mae'n bwysig bod adroddiadau ynglŷn â chynnydd yn cael eu gweld yn adroddiadau agored a thryloyw, ond mae yr un mor bwysig bod y broses adrodd yn ystyrlon ac yn drwyadl. Yn ystod proses craffu Cyfnod 1 ar y Mesur arfaethedig, awgrymais fy mod yn awyddus i sicrhau bod Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad yn cael adroddiad diweddarau blynyddol am y cynnydd ar sail ein targedau tlodi plant, sydd wedi'u rhestru yn 'Dileu Tlodi Plant yng Nghymru—Mesur Llwyddiant'. Mae hwnnw'n cynnwys 31 neu 32 o ddangosyddion. Serch hynny, rhaid inni

looking at small numbers on an annual basis and of the possibility of drawing inappropriate conclusions from poorly evidenced data because of the small numbers and the very short reporting cycle.

[96] Monitoring the Assembly Government's child poverty targets is an integral part—as Mick conceded—of the children and young people's wellbeing monitor, which will be published on a three-yearly basis from 2010, and that will track a wide range of children and young people wellbeing indicators. In addition, section 3(1)(b) of the proposed Measure requires the Welsh Ministers to keep the new child poverty strategy under review. We will also publish a report that will assess the extent to which objectives in our strategy are being achieved. The three-year reporting cycle will provide us with some robustness in effectively judging the progress, and that will tie in with the evidence that will be provided through the child wellbeing monitor and the reports from local children and young people's partnerships. I suggest that this three-yearly, formal way of reporting is a much more reliable basis from which we can monitor performance but, as I said in my previous verbal commitment, I am prepared to provide an annual commitment but, because of the limitations of the database, including that on a statutory basis is not appropriate.

[97] **Mick Bates:** Yet again, I see that you are sympathetic towards this and yet you will not enshrine it in the legislation. I draw your attention again to the fact that the committee report recommends that you produce this annual report. I accept your good intentions with regard to doing that, but we are putting legislation down for future generations of Assembly Government Ministers, and we need this because, as you rightly stated, we can learn from that three-year period of monitoring and scrutiny, but it may be a further three years before we understand what happens to the adjustments that we make based on the monitoring after three years of reporting. An annual report would enable there to be flexibility in that period so that adjustments could be made to ensure that the successes are real. That can only be achieved

fod yn ymwybodol o gyfyngiaau edrych ar niferoedd bychain bob blwyddyn a'r posibilrwydd o lunio casgliadau amhriodol ar sail data sy'n seiliedig ar dystiolaeth wael oherwydd y niferoedd bychain a'r cylch adrodd byr iawn.

Mae monitro targedau tlodi plant Llywodraeth y Cynulliad yn rhan hanfodol—fel y cyfaddefodd Mick—o'r fonitro lles plant a phobl ifanc, a gyhoeddir bob tair blynedd o 2010 ymlaen, a bydd hynny'n dilyn trywydd ysod eang o ddangosyddion i fesur lles plant a phobl ifanc. Yn ogystal â hynny, mae adran 3(1)(b) y Mesur arfaethedig yn mynnu bod Gweinidogion Cymru'n adolygu'r strategaeth tlodi plant newydd yn barhaus. Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiad a fydd yn asesu i ba raddau y cyflawnir amcanion ein strategaeth. Bydd y cylch adroddiadau tair blynedd yn cynnig trefn weddol gadarn inni bwysu a mesur y cynnydd yn effeithiol, a bydd hynny'n clymu â'r dystiolaeth a ddarperir drwy gyfrwng y monitor lles plant a'r adroddiadan gan bartneriaethau plant a phobl ifanc lleol. Awgrymaf fod y dull ffurfiol tair-blynedd hwn o gyflwyno adroddiadau'n sail fwy dibynadwy o lawer inni fonitro perfformiad, ond, fel y dywedais yn fy ymrwymiad ar lafar o'r blaen, yr wyf yn barod i ddarparu ymrwymiad blynyddol, ond, oherwydd cyfyngiadau'r gronfa ddata, nid yw'n briodol cynnwys hynny ar sail statudol.

Mick Bates: Unwaith eto, gwelaf eich bod yn cydymdeimlo â hyn ac eto nad ydych yn fodlon ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth. Tynnaf eich sylw eto at y ffaith bod adroddiad y pwyllgor yn argymhell y dylech gynhyrchu'r adroddiad blynyddol hwn. Derbyniaf eich bwriadau da o ran gwneud hynny, ond yr ydym yn gosod deddfwriaeth ar gyfer cenedlaethau Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol, ac mae angen hyn arnom, oherwydd, fel y dywedasoeh ac yr oeddech yn llygad eich lle'n dweud hynny, gallwn ddysgu yn sgil y cyfnod monitro a chraffu tair blynedd hwnnw, ond gall fod yn dair blynedd arall cyn inni ddeall beth sy'n digwydd i'r newidiadau a wnawn ar sail y monitro ar ôl tair blynedd o adroddiadau. Byddai adroddiad blynyddol yn golygu y gellid bod yn hyblyg

through annual scrutiny. I understand the points about the three-year period but, all too often, that time period is overcome by the length of reporting on the effectiveness. Annual reports would allow democratic scrutiny, which could impact on any adjustments necessary for eradicating poverty. So, I call on you to reconsider your rejection and to accept amendment 59.

yn ystod y cyfnod hwnnw er mwyn newid pethau a sicrhau bod y llwyddiannau'n llwyddiannau go iawn. Dim ond drwy graffu blynyddol y gellir sicrhau hynny. Deallaf y pwyntiau am y cyfnod tair blynedd ond, yn rhy aml o lawer, bydd hyd y cyfnod adrodd ynglŷn ag effeithiolrwydd yn drech na'r cyfnod hwnnw. Byddai adroddiadau blynyddol yn caniatáu craffu democrataidd, a allai effeithio ar unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol er mwyn dileu tlodi. Felly, galwaf arnoch i ailystyried eich gwrthwynebiad a derbyn gwelliant 59.

[98] **Val Lloyd:** I take it that you wish to move to a vote, Mick?

Val Lloyd: Cymeraf eich bod am symud i bleidlais, Mick?

[99] **Mick Bates:** Yes, please.

Mick Bates: Ydwyf, os gwelwch yn dda.

[100] **Val Lloyd:** The question is that amendment 59 be agreed to. I call for a vote.

Val Lloyd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 59. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 59: O blaid 2, Ymatal 0, Yn erbyn 3.
Amendment 59: For 2, Abstain 0, Against 3.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Williams, Brynle

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Jones, Ann
Jones, Gareth
Mewies, Sandy

*Gwrthodwyd gwelliant 59.
Amendment 59 not agreed.*

Canllawiau a Chyfarwyddiadau—Chwarae a Chymryd Rhan (Gwelliannau 16, 17, 7 a 9)

Guidance and Directions—Play and Participation (Amendments 16, 17, 7 and 9)

[101] **Val Lloyd:** Minister, would you like amendment 16 in your name to be moved?

Val Lloyd: Weinidog, a hoffech imi gynnig gwelliant 16 yn eich enw?

[102] **Brian Gibbons:** Yes, please.

Brian Gibbons: Hoffwn, os gwelwch yn dda.

[103] **Val Lloyd:** I move amendment 16 in the name of Brian Gibbons. I call on the Minister to speak to amendment 16 and the other amendments in the group.

Val Lloyd: Cynigiaf welliant 16 yn enw Brian Gibbons. Galwaf ar y Gweinidog i siarad am welliant 16 a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

[104] **Brian Gibbons:** Play and participation are dealt with in sections 60 and 61. They make separate provision for local authorities to have regard to guidance given by the Welsh Ministers. As a consequence of the proposal to move sections 60 and 61 to

Brian Gibbons: Ymdrinnir â chwarae a chymryd rhan yn adrannau 60 a 61. Mae darpariaeth ar wahân ynddynt sy'n ymwneud â'i bod yn rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru. Yn sgil y cynnig i symud adrannau 60 a 61 i

Part 1 of the proposed Measure, which will be covered in groups 18 and 19 under amendments 10 and 11, section 10, which deals with guidance, and section 11, which deals with directions, will apply to the proposed duties in relation to play and participation, removing the need for separate provision to be included in the proposed Measure.

Ran 1 y Mesur arfaethedig, yr ymdrinnir â hi yng ngrwpiau 18 ac 19 o dan welliannau 10 ac 11, bydd adran 10, sy'n ymwneud â chanllawiau, ac adran 11, sy'n ymwneud â chyfarwyddiadau, yn berthnasol i'r dyletswyddau arfaethedig sy'n ymwneud â chwarae a chymryd rhan, ac felly, ni fydd angen cynnwys darpariaeth ar wahân yn y Mesur arfaethedig.

[105] Amendments 7 and 9 remove reference to the guidance and amendment 16, which replaces them in Part 1, are consequential amendments arising from the proposal to remove provisions in relation to play and participation into the first part of the proposed Measure. They will therefore remove any confusing duplication in the legislation by including them in Part 1.

Mae gwelliannau 7 a 9 yn dileu'r cyfeiriad at y canllawiau ac mae gwelliant 16, sy'n eu disodli yn Rhan 1, yn welliannau canlyniadol sy'n codi yn sgil y cynnig i ddileu darpariaethau ynglŷn â chwarae a chymryd rhan yn rhan gyntaf y Mesur arfaethedig. Felly, byddant yn dileu unrhyw ddyblygu dryslyd yn y ddeddfwriaeth drwy eu cynnwys yn Rhan 1.

[106] Finally, amendment 17 extends the enforcement provision currently in section 11 of the proposed Measure to include play and participation so that the Welsh Ministers will have the power to direct Welsh authorities to take any action that they consider necessary to secure compliance with these duties where authorities fail to comply or, indeed, are likely to fail to comply with such duties.

Yn olaf, mae gwelliant 17 yn ymestyn y ddarpariaeth ynglŷn â gorfodi sydd ar hyn o bryd yn adran 11 y Mesur arfaethedig er mwyn cynnwys chwarae a chymryd rhan fel y bydd gan Weinidogion Cymru'r pŵer i roi cyfarwyddyd i awdurdodau Cymru gymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol yn eu tŷb hwy i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn os na fydd awdurdodau'n cydymffurfio â dyletswyddau o'r fath neu os ydynt, yn wir, yn debygol o fethu â gwneud hynny.

[107] **Val Lloyd:** I have no further speakers. Minister, do you wish to close the debate, or do you wish to move directly to a vote?

Val Lloyd: Nid oes gennyf ragor o siaradwyr, Weinidog. A ydych am gloi'r ddadl, ynteu symud yn syth i bleidlais?

[108] **Brian Gibbons:** I wish to move to a vote, please, Chair.

Brian Gibbons: Yr wyf am symud i bleidlais, os gwelwch yn dda, Gadeirydd.

[109] **Val Lloyd:** The question is that amendment 16 be agreed to. I call for a vote.

Val Lloyd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 16. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 16: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 16: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Jones, Ann
Jones, Gareth
Mewies, Sandy
Williams, Brynle

*Derbyniwyd gwelliant 16.
Amendment 16 agreed.*

[110] **Val Lloyd:** We now come to dispose of amendment 17 in the name of Brian Gibbons. Minister, would you like amendment 17 in your name to be moved? **Val Lloyd:** Down yn awr at waredu gwelliant 17 yn enw Brian Gibbons. Weinidog, a hoffech imi gynnig gwelliant 17 yn eich enw?

[111] **Brian Gibbons:** Yes, Chair. **Brian Gibbons:** Hoffwn, Gadeirydd.

[112] **Val Lloyd:** I move amendment 17 in the name of Brian Gibbons. **Val Lloyd:** Cynigiau welliant 17 yn enw Brian Gibbons.

[113] The question is that amendment 17 be agreed to. I call for a vote. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 17. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 17: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 17: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Jones, Ann
Jones, Gareth
Mewies, Sandy
Williams, Brynle

*Derbyniwyd gwelliant 17.
Amendment 17 agreed.*

[114] **Val Lloyd:** There will be no votes at this stage on amendments 7 and 9. We will vote on these amendments later in the proceedings. **Val Lloyd:** Ni chynhelir yr un bleidlais ar hyn o bryd ar welliannau 7 a 9. Byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau hyn yn ddiweddarach yn ein trafodaethau.

Yr Awdurdodau Cymreig (Gwelliannau 5, 60 a 6) Welsh Authorities (Amendments 5, 60 and 6)

[115] **Val Lloyd:** The lead amendment is amendment 5 in the name of Brian Gibbons, which is grouped with amendments 60 and 6. Minister, would you like amendment 5 in your name to be moved? **Val Lloyd:** Y prif welliant yw gwelliant 5 yn enw Brian Gibbons. Mae'r gwelliant hwnnw wedi'i grwpio gyda gwelliannau 60 a 6. Weinidog a hoffech imi gynnig gwelliant 5 yn eich enw?

[116] **Brian Gibbons:** Yes, Chair. **Brian Gibbons:** Hoffwn, Gadeirydd.

[117] **Val Lloyd:** I move amendment 5 in the name of Brian Gibbons. **Val Lloyd:** Cynigiau welliant 5 yn enw Brian Gibbons.

[118] I invite the Minister to speak to amendment 5 and the other amendments in the group. Gwahoddaf y Gweinidog i siarad am welliant 5 a gwelliannau eraill yn y grŵp.

[119] **Brian Gibbons:** I will also refer to amendment 60 in the name of Jenny **Brian Gibbons:** Cyfeiriai hefyd at welliant 60 yn enw Jenny Randerson. Gyda golwg ar

Randerson. With regard to amendments 5 and 6, colleagues will be aware that the Minister for Health and Social Services made an announcement in June this year about the unification of the public health services in Wales. The Minister said that, by October, the Wales Centre for Health will cease to exist and its functions will be replaced by a new body called Public Health Wales. In preparation for this structural change, amendment 5 amends the reference to the Wales Centre for Health and replaces it with the Public Health Wales National Health Service Trust.

[120] Members will be aware that I wrote to the committee Chair in May advising, among other things, of discussions that we are having with the Charity Commission outlining our intention to include a further four organisations in the list of Welsh authorities covered under section 12. The amendment proposes that the organisations bound by the duties of the proposed Measure will include the Arts Council of Wales, the National Library of Wales, National Museum Wales and the Sports Council for Wales. The duty will apply to these bodies in their present form. I was pleased that the committee welcomed my commitment to amend section 12 and look for support again today.

[121] I will now turn to amendment 60. We recognise that further education institutions have a key role to play in delivering the agenda for tackling child poverty. The scheme that the proposed Measure introduces will impose a duty on public authorities in Wales that have a strategic role through a national or regional remit.

2.00 p.m.

[122] Local authorities are obviously an exception to that, but their crucial role in delivering children and young people's partnerships justifies them being an exception. Similarly, with education, the Higher Education Funding Council for Wales is the means by which the child poverty duties will be delivered in Wales; they will not be assigned to individual higher

welliant 5 a gwelliant 6, bydd fy nghyd-Aelodau'n gwybod bod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyhoeddi ym mis Mehefin eleni ei bod am uno'r gwsanaethau iechyd cyhoeddus yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog, erbyn mis Hydref, na fydd Canolfan Iechyd Cymru'n bodoli rhagor ac y caiff ei swyddogaethau eu disodli gan gorff newydd a elwir yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Er mwyn paratoi ar gyfer y newid strwythurol hwn, mae gwelliant 5 yn newid y cyfeiriad at Ganolfan Iechyd Cymru ac yn rhoi Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei le.

Bydd yr Aelodau'n gwybod imi ysgrifennu at Gadeirydd y pwyllgor ym mis Mai'n sôn, ymhlith pethau eraill, am y trafodaethau sydd ar y gweill rhyngom a'r Comisiwn Elusennau ac yn sôn am ein bwriad o gynnwys pedwar corff arall yn y rhestr o awdurdodau yng Nghymru y cyfeirir atynt yn adran 12. Mae'r gwelliant yn cynnig y bydd y cyrff sydd yn rhwym wrth ddyletswyddau'r Mesur arfaethedig yn cynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru. Bydd y ddyletswydd yn berthnasol i'r cyrff hyn yn eu ffurf bresennol. Yr oeddwn yn falch bod y pwyllgor wedi croesawu fy ymrwymiad i ddiwygio adran 12 a cheisio cefnogaeth eto heddiw.

Trof yn awr at welliant 60. Sylweddolwn fod gan sefydliadau addysg bellach rôl allweddol i'w chwarae o ran gwireddu'r agenda ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant. Bydd y cynllun a gyflwynir gan y Mesur arfaethedig yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru a chanddynt rôl strategol yn sgil cylch gorchwyl cenedlaethol neu ranbarthol.

Mae'n amlwg bod awdurdodau lleol yn eithriad i hynny, ond mae eu rôl hollbwysig o ran darparu partneriaethau plant a phobl ifanc yn cyfiawnhau eu heithrio. Yn yr un modd, o ran addysg, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yw'r cyfrwng a ddefnyddir i gyflawni'r dyletswyddau tlodi plant yng Nghymru; ni chânt eu neilltuo i sefydliadau addysg uwch unigol. Unwaith eto, o ran

education institutions. Again, in relation to local health boards, the process will be undertaken by the NHS. For that reason, at this stage, we are not convinced of the need to include, in this proposed Measure, further education institutions by name. As things currently stand, the Welsh Ministers have a relationship with further education institutions that is similar to that which HEFCW has with the universities. We would expect the Welsh Ministers to exercise that duty in relation to further education institutions in the way that we expect HEFCW to administer its duties in relation to higher education institutions. As a consequence of this proposed Measure, the Assembly Government will be subject to a new statutory duty to develop a child poverty strategy, which will further strengthen its relationship vis-à-vis FE colleges.

[123] However, we recognise that one could argue that, in current practice, FEIs might have a more distant relationship with the Assembly Government than do some of the bodies that I have already mentioned. However, the new statutory duty on the Assembly Government in relation to child poverty will also strengthen the Assembly Government's duty in relation to the FEIs. Nevertheless, as things develop, if that does not prove to be the case in practice, I am pleased to put on the record that we, as a Government, would be willing to revisit this, if the evidence shows that these arrangements are not working. On the basis of that assurance, I ask the mover of the amendment to withdraw it. If they are not prepared to do so, then at this stage, I urge rejection of that amendment.

[124] **Val Lloyd:** Does any Member wish to speak?

[125] **Mick Bates:** I wish to speak to amendment 60. I begin, in line with the Stage 1 report, by welcoming the Minister's amendments to widen the list of authorities included in this section. I note that you said 'we expect' to carry out work with FEIs, but I believe that we should embrace the current opportunities to include FEIs in this

byrddau iechyd lleol, y GIG a fydd yn gyfrifol am y broses. Dyna pam, ar hyn o bryd, nad ydym wedi'n hargyhoeddi bod angen cynnwys sefydliadau addysg bellach yn ôl eu henw yn y Mesur arfaethedig hwn. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru berthynas â sefydliadau addysg bellach sy'n debyg i'r berthynas sydd gan CCAUC â'r prifysgolion. Byddem yn disgwyl i Weinidogion Cymru roi'r ddyletswydd honno ar waith yng nghyswllt sefydliadau addysg bellach yn yr un ffordd ag y byddwn yn disgwyl i CCAUC weinyddu ei ddyletswyddau yng nghyswllt sefydliadau addysg uwch. Yn sgil y Mesur arfaethedig hwn, bydd dyletswydd statudol newydd ar Lywodraeth y Cynulliad i ddatblygu strategaeth tlodi plant, a fydd yn cryfhau eto'i perthynas â cholegau AB.

Fodd bynnag, sylweddolwn y gallai rhywun ddadlau, fel y mae pethau ar hyn o bryd, nad yw'r berthynas rhwng Sefydliadau Addysg Bellach â Llywodraeth y Cynulliad yn berthynas mor glos â honno sydd gan rai o'r cyrff yr wyf eisoes wedi sôn amdanynt. Fodd bynnag, bydd y ddyletswydd statudol newydd ar Lywodraeth y Cynulliad yng nghyswllt tlodi plant yn cryfhau dyletswydd Llywodraeth y Cynulliad hefyd yng nghyswllt y Sefydliadau Addysg Bellach. Wedi dweud hynny, wrth i bethau ddatblygu, oni phrofir bod hynny'n wir ar lefel ymarferol, yr wyf yn falch o'i roi ar glawr y byddem ni'r Llywodraeth yn barod i ailystyried hyn, os bydd dystiolaeth yn dangos nad yw'r trefniadau hyn yn gweithio. Ar sail y sicrwydd hwnnw, gofynnaf i'r sawl sy'n cynnig y gwelliant ei dynnu yn ôl. Onid ydynt yn barod i wneud hynny, yna, ar hyn o bryd, pwysaf arnoch i wrthod y gwelliant hwnnw.

Val Lloyd: A oes unrhyw Aelod am siarad?

Mick Bates: Dymunaf siarad am welliant 60. Dechreuaf, yn unol ag adroddiad Cyfnod 1, drwy groesawu gwelliannau'r Gweinidog i ehangu'r rhestr o awdurdodau a gynhwysir yn yr adran hon. Sylwaf ichi ddweud 'disgwyliwn' wneud gwaith gyda Sefydliadau Addysg Bellach, ond credaf y dylem fachu ar y cyfleoedd sydd ar gael

legislation in line with paragraphs 37 and 201 of the Stage 1 report. It would seem exceptionally odd to exclude these institutions that have played such an important role in the lives of Welsh families—but there is often access to other institutions that do not have the same access to Welsh families. I understand that there has been support for this amendment from the unions and I hope that the Minister, therefore, ensures that FEIs are included in section 12 through this amendment. While I accept the Minister's further platitudes that he would reconsider this, he made a commitment to consider their inclusion after the Stage 1 report. Therefore, I express some disappointment that his commitment to examine this recommendation has resulted in rejecting an amendment that is supported by the unions. I am certain that, at a future stage, you will find it necessary to change your decision and include these.

[126] **Val Lloyd:** Minister, do you wish to reply?

[127] **Brian Gibbons:** Yes. In complying with the request, we gave serious consideration to this and spent much time to satisfy ourselves that the current arrangements that we were proposing were sufficiently resilient to meet the purposes of the proposed Measure. It was only after that detailed consideration that we came to the conclusion that we did. We do not feel that it is necessary to list individual universities; we are happy to go down the Higher Education Funding Council for Wales route. The Assembly Government in this context is in the same situation as HEFCW. I think that if there was consistency, individual universities would almost have to be listed in the same way. So, we do accept that there is an alternative argument, but having considered the new duty on the Assembly Government in relation to its own child poverty strategy duties, we feel that that will strengthen the way in which the Assembly Government approaches FE institutions and that it will do so with a new sense of purpose that colleagues may feel has not been there to date. Consequently, we feel that it is not appropriate at this juncture to list the FEIs in Wales on an individual basis, which is the requirement of this amendment.

eisoes i gynnwys Sefydliadau Addysg Bellach yn y ddeddfwriaeth hon yn unol â pharagraffau 37 a 201 adroddiad Cyfnod 1. Byddai'n ymddangos yn eithriadol o ryfedd eithrio'r sefydliadau hyn sydd wedi chwarae rhan mor bwysig ym mywydau teuluoedd Cymru—er bod mynediad ar gael yn aml at sefydliadau eraill nad oes ganddynt yr un cysylltiad â theuluoedd Cymru. Deallaf fod yr undebau wedi cefnogi'r gwelliant hwn a gobeithiaf felly fod y Gweinidog yn sicrhau bod Sefydliadau Addysg Bellach yn cael eu cynnwys yn adran 12 drwy'r gwelliant hwn. Er fy mod yn derbyn sylwadau cyffredinol pellach y Gweinidog y byddai'n ailystyried hyn, ymrwymodd i ystyried eu cynnwys ar ôl adroddiad Cyfnod 1. Felly, mynegaf rywfaint o siom mai canlyniad ei ymrwymiad i ystyried yr argymhelliad hwn yw gwrthod gwelliant y mae'r undebau'n ei gefnogi. Yr wyf yn sicr, yn y dyfodol, y gwelwch fod angen newid eich penderfyniad a chynnwys y rhain.

Val Lloyd: Weinidog, a ydych am ymateb?

Brian Gibbons: Ydwyf. Wrth gydymffurfio â'r cais, ystyriwyd hyn o ddifrif a threuliwyd cryn amser yn bodloni'n hunain bod y trefniadau presennol yr oeddem yn eu cynnig yn ddigon gwydn i ateb dibenion y Mesur arfaethedig. Dim ond ar ôl yr ystyried manwl hwnnw y cyrhaeddwyd y casgliad hwnnw. Nid ydym yn teimlo bod angen rhestru prifysgolion unigol; yr ydym yn hapus i ddilyn trywydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Yn y cyd-destun hwn, mae Llywodraeth y Cynulliad yn yr un sefyllfa â CCAUC. Yr wyf yn meddwl, er mwyn bod yn gyson, y byddai'n sicr yn rhaid inni restru prifysgolion unigol yn yr un modd. Felly, yr ydym yn derbyn bod dwy ochr i'r ddadl, ond ar ôl ystyried y ddyletswydd newydd sydd ar Lywodraeth y Cynulliad yng nghyswllt ei dyletswyddau hi ei hun o dan y strategaeth tlogi plant, teimlwn y bydd hynny'n cryfhau'r ffordd y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn mynd at sefydliadau Addysg Bellach ac y bydd yn gwneud hynny gyda synnwyr newydd o bwrpas a hynny'n rhywbeth y mae cyd-Aelodau o bosibl yn teimlo nad yw wedi bod yno hyd yn hyn. O ganlyniad i hynny, teimlwn nad yw'n briodol ar hyn o bryd inni restru Sefydliadau Addysg Bellach Cymru fesul un, sef yr hyn y mae'r

gwelliant hwn yn gofyn amdano.

[128] **Val Lloyd:** Do you wish to move to a vote on amendment 5 or withdraw, Minister?

Val Lloyd: A ydych am symud i bleidlais ar welliant 5 ynteu ei dynnu yn ôl, Weinidog?

[129] **Brian Gibbons:** I wish to proceed to a vote.

Brian Gibbons: Dymunaf symud i bleidlais.

[130] **Val Lloyd:** The question is that amendment 5 be agreed to. I call for a vote.

Val Lloyd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 5. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 5: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 5: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Jones, Ann
Jones, Gareth
Mewies, Sandy
Williams, Brynle

*Derbyniwyd gwelliant 5.
Amendment 5 agreed.*

[131] **Val Lloyd:** Given that amendment 5 has now been disposed of, in line with the marshalled list we now move to dispose of amendments 60 and 6. I invite Mick Bates to move amendment 60.

Val Lloyd: Gan inni waredu gwelliant 5 bellach, yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli, symudwn yn awr at waredu gwelliannau 60 a 6. Gwahoddaf Mick Bates i gynnig gwelliant 60.

[132] **Mick Bates:** I move amendment 60 in the name of Jenny Randerson and with the name of Mark Isherwood in support.

Mick Bates: Cynigïaf welliant 60 yn enw Jenny Randerson a chydag enw Mark Isherwood yn ei gefnogi.

[133] **Val Lloyd:** The question is that amendment 60 be agreed to. I call for a vote.

Val Lloyd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 60. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 60: O blaid 2, Ymatal 0, Yn erbyn 3.
Amendment 60: For 2, Abstain 0, Against 3.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Williams, Brynle

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Jones, Ann
Jones, Gareth
Mewies, Sandy

*Gwrthodwyd gwelliant 60.
Amendment 60 not agreed.*

[134] **Val Lloyd:** Minister, would you like amendment 6 in your name to be moved?

Val Lloyd: Weinidog, a hoffech imi gynnig gwelliant 6 yn eich enw?

[135] **Brian Gibbons:** Yes, Chair.

Brian Gibbons: Hoffwn, Gadeirydd.

[136] **Val Lloyd:** I move amendment 6 in the name of the Minister. **Val Lloyd:** Cynigiaf welliant 6 yn enw'r Gweinidog.

[137] The question is that amendment 6 be agreed to. I call for a vote. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 6. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 6: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 6: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Jones, Ann
Jones, Gareth
Mewies, Sandy
Williams, Brynle

*Derbyniwyd gwelliant 6.
Amendment 6 agreed.*

Rheoliadau sy'n Llywodraethu Gweithgareddau (Gwelliant 18) Regulations Governing Activities (Amendment 18)

[138] **Val Lloyd:** We now move to group 9. Amendment 18 is in relation to regulations governing activities. Minister, would you like amendment 18 in your name to be moved? **Val Lloyd:** Symudwn yn awr at grŵp 9. Mae a wnelo gwelliant 18 â rheoliadau sy'n llywodraethu gweithgareddau. Weinidog a hoffech imi gynnig gwelliant 18 yn eich enw?

[139] **Brian Gibbons:** Yes, if you would, Chair. **Brian Gibbons:** Hoffwn, petaech gystal â gwneud hynny, Gadeirydd.

[140] **Val Lloyd:** I move amendment 18 in the name of Brian Gibbons and call on the Minister to speak. **Val Lloyd:** Cynigiaf welliant 18 yn enw Brian Gibbons a galwaf ar y Gweinidog i siarad.

[141] **Brian Gibbons:** Section 13 of the proposed Measure allows the Welsh Ministers to make adjustments to the legislative schemes for the registration of child minding and day care services for children under the age specified. At present, those who care for children below the age of eight in prescribed circumstances must be registered. However, the Order-making power in section 13 could be exercised to make the requirement apply in relation to children of a greater or lesser age. This is a technical amendment to ensure that the wording of section 24 is not overly specific and is flexible, so that if the Order-making power in section 13(4)(a) is exercised, so as to allow an age greater or less than eight, then the regulation-making power in section 24 can be interpreted to take that modification **Brian Gibbons:** Mae Adran 13 o'r mesur arfaethedig yn caniatáu i Weinidogion Cymru newid y cynlluniau deddfwriaethol ar gyfer cofrestru gwasanaethau gwarchod plant a gofal dydd i blant o dan yr oedran a bennir. Ar hyn o bryd, rhaid i'r rheini sy'n gofalu am blant o dan wyth oed o dan amgylchiadau a ragnodir gofrestru. Fodd bynnag, gellid rhoi'r pŵer Gwneud-gorchmynion sydd yn adran 13 ar waith er mwyn i'r gofyniad fod yn berthnasol yng nghyswllt plant hŷn neu iau. Newid technegol yw hwn er mwyn sicrhau nad yw geiriad adran 24 yn orbenodol a'i fod yn hyblyg. Felly, os rhoddir y pŵer Gwneud-gorchymyn yn adran 13(4)(a) ar waith, gan ganiatáu oedran hŷn neu iau nag wyth, yna, gellir dehongli'r pŵer gwneud-rheoliadau yn adran 24 mewn modd sy'n rhoi sylw i'r newid hwnnw.

into account.

[142] **Val Lloyd:** Minister, I have no speakers on this amendment. Do you wish to move to a vote?

Val Lloyd: Weinidog, nid oes gennyf siaradwr am y gwelliant hwn. A ydych am symud i bleidlais?

[143] **Brian Gibbons:** Yes, please.

Brian Gibbons: Ydwyf, os gwelwch yn dda.

[144] **Val Lloyd:** The question is that amendment 18 be agreed to. I call for a vote.

Val Lloyd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 18. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 18: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 18: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Jones, Ann
Jones, Gareth
Mewies, Sandy
Williams, Brynle

*Derbyniwyd gwelliant 18.
Amendment 18 agreed.*

Atal Cofrestriad—Hyfforddiant (Gwelliant 45) Suspension of Registration—Training (Amendment 45)

[145] **Val Lloyd:** We now move to group 10, which contains amendment 45, and this amendment relates to training following the suspension of registration. I call on Brynle Williams to move and speak to amendment 45.

